# CYNGOR CYMUNED LLANGOED & PENMON COMMUNITY COUNCIL.

**Cofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd yn yr Hwb Cymunedol, Pont y Brenin, Llangoed ar Nos Fawrth, 3ydd MAWRTH 2026 yn cychwyn am 7.00yh.**

**Minutes of the Full Council Meeting held at the Community Hub, Pont y Brenin, Llangoed, on Tuesday, 3rd MARCH 2026 commencing at 7.00pm.**

| 1 | **Yn Bresennol oedd:** | **Present were:** |
|---|---|---|
| | Cynghorwyr:<br>Mrs Delyth Jones (Cadeirydd),<br>Ms Stephanie Dummler,<br>Ms Dwynwen Hughes,<br>Mr Dyfed Roger Jones,<br>Mr Alan Owen & Mr J Alun Foulkes (Clerc).<br><br>Ymunodd Cynghorwr Mr Gethyn Rowlands y cyfarfod am 7.05yh.<br><br>HEFYD yn bresennol oedd Cynghorydd Sirol, Mr Alun Roberts | Cllrs<br>Mrs Delyth Jones (Chair),<br>Ms Stephanie Dummler,<br>Ms Dwynwen Hughes,<br>Mr Dyfed Roger Jones,<br>Mr Alan Owen & Mr J Alun Foulkes (Clerk).<br><br>Cllr Mr Mr Gethyn Rowlands joined the meeting at 7.05pm.<br><br>ALSO in attendance was County Councillor Mr Alun Roberts. |
| | | |
| 2 | **Derbyn Unrhyw Ymddiheuriad:**<br>Derbyniwyd ymddiheuriad oddiwrth Cynghorydd Mr Richard Hughes Cynghorydd Sirol Mr Gary Pritchard. | **Accept Any Apologies:**<br>Apologies were received from:<br>Cllr Mr Richard Hughes<br>County Cllr Mr Gary Pritchard. |
| | | |
| 3 | **Croeso** | **Welcome** |
| | Croesawodd y Cadeirydd yr holl Gynghorwyr i'r cyfarfod. | The Chairman welcomed all the Councillors to the meeting. |
| | | |
| 4 | **Datgan Diddordeb Personol a/neu Rhagfarnol.**<br>Dim datganiad wedi ei dderbyn. | **To Declare any Personal and/or Prejudicial Interest.**<br>No declaration received. |
| | | |
| 5 | **Cyfranogiad y Cyhoedd** – Cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol gyflwyno sylwadau am unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod.<br>**Dim wedi ei dderbyn.** | **Public Participation** - Reasonable opportunity for members of the public present to submit comments about any matter discussed at the meeting.<br>**None Received.** |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | **Cywiro & Cadarnhau Cofnodion.**<br>Cyfarfod y Cyngor Llawn – 3.2.2026 – **cynigiwyd ac eiliwyd (DRJ/SD) i dderbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.** | **Correct & Approve Minutes.**<br>Full Council Meeting – 3.2.2026 – **proposed and seconded (DRJ/SD) to accept and approve the minutes as a true record.** |
| | | |
| 7 | **Materion Neuadd Llangoed** | **Llangoed Village Hall Matters** |
| | Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn hysbysiad am gyfarfod nesaf Pwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref a Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, y ddau i'w cynnal Nos Iau, 5ed Mawrth 2026. Derbyniwyd cadarnhad gan y Cadeirydd fod y Gwresogi bellach yn gweithio a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i Nick a Jonathan i'r cyfarfod nesaf er mwyn diweddaru'r Cynghorwyr. | The Clerk confirmed that he had received notification of the Village Hall Management Committee's next meeting and its Annual General Meeting, both to be held this coming Thursday, 5th March 2026.Confirmation from the Chair received that the Heating was now working and it was resolved to extend an invitation to Nick & Jonathan to the next meeting to provide Cllrs with a full update. |
| | | |
| 8 | **Seti Gwag** | **Vacant Seats** |
| | Cadarnhaodd y Clerc fod yr ail gam (Cyfethol) ar y gweill o lenwi'r 3 sedd wag ar gyfer Ward Llangoed a bod yr hysbysiad perthnasol wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac ar y tudalennau facebook gyda dyddiad cau o 6ed Mawrth 2026. Cadarnhaodd hefyd ei fod wedi derbyn diddordeb gan un preswylydd lleol. | The Clerk confirmed that the second stage (Co-option) was in progress of filling the 3 vacant seats for the Llangoed Ward and the relevant notice has been published on the Council's website and on the facebook pages with a closing date of the 6th March 2026. He also confirmed that he had received interest from one local resident. |
| | | |
| 9 | **Adroddiad Sgwâr Tawelfan.**<br>Rhoddwyd cadarnhad gan y Clerc fod y broses swyddogol ar y gweill a bod cynigion a thelerau'r Cyngor Cymuned ar gyfer caffael trosglwyddo'r rhydd-ddaliad gan y Cyngor Sir bellach yn nhwylo'r Cyfreithwyr. | **Tawelfan Square Report.**<br>Confirmation was given by the Clerk that the official process was in motion and that the Community Council proposals and terms of acquiring the transfer of the freehold from the County Council was now in the hands of the Solicitors. |
| | | |
| 10 | **Paneli Gwybodaeth Y Rhyd** | **The Rhyd Information Panels** |
| | Cadarnhaodd y Clerc y bydd yn ymweld â swyddfeydd Menter Môn yn fuan i drafod disodli'r Paneli Gwybodaeth presennol a'u fframiau a geiriad newydd y Paneli a rhannwyd yn ddiweddar gyda'r aelodau i'w gymeradwyo. | The Clerk confirmed that he will shortly be visiting the offices of Menter Môn to discuss the replacement of the existing Information Panels and their frames and the new wording of the Panels that had been shared recently with the members for approval. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **11** | **Arwyddion Maes Parcio Lleiniog** | **Lleiniog Car Park Signage** |
| | Cadarnhad a diweddariad gan y Clerc ei fod wedi siarad ag aelod o Bartneriaeth Natur Leol Cyngor Sir Ynys Môn gyda'r bwriad o ailosod a chreu arwyddion newydd yn y maes parcio. | Confirmation and update given by the Clerk that he has spoken with a member of the IOACC Local Nature Partnership with a view of replacing and creating new signage at the car park. |
| | | |
| **12** | **Materion Y Tir Comin.**<br>Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi dilyn i fyny ac wedi gofyn am ddiweddariad yn dilyn cwblhau Ffurflen Ganiatâd Cyngor Sir Ynys Môn i symud un o'r cerbydau o dan Ddeddf Gwaredu Sbwriel (Amwynder) 1978. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb eto.<br><br>Cadarnhaodd y Clerc hefyd nad yw wedi clywed gan Gyfoeth Naturiol Cymru eto ynghylch y cerbyd arall yn sgil pryderon ynghylch gollyngiadau olew. | **Common Land Matters.**<br>The Clerk confirmed that he had followed up and requested an update following the completion of the IOACC Consent Form to remove one of the vehicles under the Refuse Disposal (Amenity) Act 1978. No response had yet been received.<br><br>The Clerk also confirmed that he has not yet heard from the NRW regarding the other vehicle due to concerns of oil leakage. |
| | | |
| **13** | **Cynllun Bioamrywiaeth.** | **Biodiversity Plan.** |
| | Cynigiwyd ac eiliwyd (SD/DRJ) cymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth newydd yn ffurfiol a chytunwyd ar hyn yn unfrydol. | Proposed & Seconded (SD/DRJ) to formally approve and adopt the new Biodiversity Plan and this was agreed unanimously. |
| | | |
| **14** | **Grwp Natur Seiriol** | **Seiriol Nature Group** |
| | Cafwyd diweddariad byr gan y Clerc a thystiolaeth ffotograffig i'r Cynghorwyr o'r gwaith a wnaed gan y grŵp yn ystod mis Chwefror yn Aberlleiniog a derbyniwyd hyn gyda diolch | The Clerk had provided Cllrs with a brief update and photographic evidence of work carried out by the group during February at Aberlleiniog and this was accepted with thanks. |
| | | |
| **15** | **Diweddariad ar Cais y Rhandiroedd** | **Allotment Application Update.** |
| | Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn cynllun diwygiedig a mwy manwl gan y Grŵp Rhandir er mwyn cyflwyno cais addas i'r Cyngor Sir. Yn y cyfamser, roedd hefyd wedi cysylltu ag Asiant Cynllunio i gynorthwyo'r Cyngor Cymuned gyda Chais Cynllunio. Roedd hefyd wedi ceisio cysylltu â Mr Dylan Owen o Gyngor Sir Ynys Môn i geisio cymorth ariannol tuag at y ffioedd cynllunio ar gyfer paratoi'r cais. | The Clerk confirmed that he had received a revised and more detailed plan from the Allotment Group in order to present a suitable application to the County Council. In the meantime, he had also approached a Planning Agent to assist the Community Council with a Planning Application. He had also tried to contact Mr Dylan Owen from the IOACC to seek funding assistance towards the planning fees for the preparation of the application. |

| 16 | **Materion Caeau Chwarae** | **Play Area Matters** |
|---|---|---|
| | Cadarnhad gan y Clerc fod gwaith i ailosod y goliau bach ym mhen pellaf Cae Chwarae Tyddyn Paun wedi'i gwblhau. | Confirmation from the Clerk that works to replace the small sided goals at the far end of the field had been completed. |
| **17** | **Materion Difibriliwr.** | **Defibrillator Matters.** |
| | Adroddodd y Cynghorydd Mr Alan Owen y bydd yn dechrau'r gwaith adfer angenrheidiol i'r llawr, y wal a'r ffens o amgylch y diffibriliwr ym Mhenmon cyn gynted â phosibl.<br><br>Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi prynu padiau newydd ar gyfer pob Diffibriliwr gan fod y padiau presennol bellach wedi dod i ben. Roedd angen batris newydd ar y Diffibriliwr ym Mhenmon hefyd ac, o ganlyniad, nid oedd arlein dros dro. | Cllr Mr Alan Owen reported that he will begin the necessary remedial works to the ground, wall & fence surrounding the defibrillator at Penmon as soon as possible.<br><br>Clerk confirmed that he had purchased new pads for all Defibrillators as the current pads have now expired. The Defibrillator at Penmon also needed new batteries and, as a consequence, was temporarily offline. |
| | | |
| **18** | **Materion Priffyrdd** | **Highway Matters** |
| | • Cadarnhaodd y Clerc fod Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn wedi rhestru'r gwaith i ailbeintio'r llinellau melyn dwbl yng nghanol Llangoed ar eu hamserlen a byddant yn gwneud y gwaith cyn gynted â phosibl. Gwnaed cais hefyd i ailbeintio'r llifyn coch ar wyneb y ffordd ARAF wrth fynedfa maes Chwarae Tyddyn Paun a'r gyffordd i'r Ysgol Gynradd.<br>• **Pont Lleiniog** – dim diweddariad ar gael. Bydd y Cynghorydd Sir Mr Alun Roberts yn mynd ar drywydd y mater gydag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn.<br>• Gofynnwyd i'r Cynghorydd Sirol Mr Alun Roberts ddilyn cwynion am dyllau yn y ffordd a gwaith heb ei wneud ger Neuadd y Pentref. Gofynnwyd iddo hefyd a ellid gwneud rhywbeth i wyneb gwael y ffordd ar y ffordd gefn uchaf sy'n arwain at Benmon a chododd y Cynghorydd Mr Alan Owen eto'r peryglon a achosir gan dyllau yn y | • The Clerk confirmed that the IOACC Highways Department had listed the works to repaint the double yellow lines at the centre of Llangoed on to their schedule and will carry out this work as soon as possible. A request was also made to have the red dye repainted on the SLOW road surface at the entrance of Tyddyn Paun Play area and the junction to the Primary School.<br>• **Pont Lleiniog** – no update available. County Cllr Mr Alun Roberts will chase this matter up with the IOACC Highways Department.<br>• County Cllr Mr Alun Roberts was requested to follow up complaints of potholes and outstanding works by the Village Hall. He was also asked whether something could be done to the poor road surface on the top back road leading to Penmon and Cllr Mr Alan Owen again raised the dangers posed by further potholes and |

| | | |
|---|---|---|
| | ffordd a waliau wedi cwympo rhwng Tan y Ffordd a'r Porthdy. | collapsed walls between Tan y Ffordd and the Gate House. |
| | | |
| **19** | **Rhestr Biliau I'w Dalu & Materion Cyllid Eraill.** | **List of Bills for Payment & Other Financial Matters.** |
| | **Cynnig & Eilio (GR/DRJ) i wneud y taliadau canlynol ac basiwyd yn unfrydol.** | **Proposed & Seconded (GR/DRJ) to make the following payments. Approved unanimously.** |
| **19.1** | Pozitive Energy – Trydan Tyddyn Paun – 1.1.26 > 31.1.2026 **£82.18**<br><br>Banc Lloyds Bank – Costau Banc **£4.25**<br><br>Cyflog Clerc – Mawrth 2026 **£483.00**<br><br>JRB Enterprise – Bagiau Baw Ci **£325.20**<br><br>Defib Store Ltd – Padiau Difib **£762.00**<br><br>Play & Leisure Ltd – Offer Newydd Cae Chwarae **£8,312.70**<br><br>Un Llais Cymru – Cwrs Hyfforddi **£42.00**<br><br>GW Plant Hire – Torri Gwair **£900.00** | Pozitive Energy –Tyddyn Paun Electricity – 1.1.26 > 31.1.2026 **£82.18**<br><br>Lloyds Bank - Bank Charges **£4.25**<br><br>Clerk's Wages – March 2026 **£483.00**<br><br>JRB Enterprise – Dog Dispenser Bags **325.20**<br><br>Defib Store Ltd – Defibrillator Pads **£762.00**<br><br>Play & Leisure Ltd – New Play Area Equip **£8,312.70**<br><br>One Voice Wales – Training Course **£42.00**<br><br>GW Plant Hire – Grass Cutting **£900.00** |
| **19.2** | **INCWM** | **INCOME** |
| | Ffioedd Claddu **£550.00**<br><br>CSYM – Cymorthdal Claddu Plant **£236.63**<br><br>CSYM – Ad-Daliad Llwybrau **£900.00** | Burial Fees **£550.00**<br><br>CSYM – Child Burial Grant **£236.63**<br><br>CSYM – Footpath Reimbursement **£900.00** |
| **19.3** | **Cysoni Banc hyd at 28.02.2026:**<br><br>Cyfrif Cyffredol: **£12,843.14**<br>Cyfrif Cadw: **£7,500.00** | **Bank Reconciliation as at 28.2.2026:**<br><br>Current Account: **£12,843.14**<br>Reserve Account: **£7,500.00** |
| **19.4** | **Mandad Banc -** adroddodd y Clerc y bydd yn ceisio ymweld â Lloyds Bank PLC ym Mangor y mis hwn i geisio dechrau'r broses o ddiwygio'r mandad banc i gynnwys llofnodwyr y Cynghorwyr Mrs Delyth Jones a Mr Dyfed Rogers Jones er mwyn cydymffurfio â sylwadau a godwyd | **Bank Mandate -** the Clerk reported that he will try to visit Lloyds Bank PLC in Bangor this month to try and begin the process of amending the bank mandate to include the signatories of Cllrs Mrs Delyth Jones & Mr Dyfed Rogers Jones in order to comply with comments raised by the External Auditor at the last audit. |

| | | |
|---|---|---|
| | gan yr Archwilydd Allanol yn yr archwiliad diwethaf. | |
| 19.5 | **Llythyr o ddiolch** - Nododd y Cyngor llythyrau diolch a dderbyniwyd gan y ddwy Eglwys ac Ambiwlans Awyr Cymru am y rhoddion diweddar a waned iddynt. | **Letter of thanks** - Council also noted letters of thanks received from both Churches and the Welsh Air Ambulance for the recent donations made. |
| 19.6 | **Cais am Rodd -** derbyniwyd cais am rodd gan Bapur Menai. **Cynigiwyd ac eiliwyd (AO/DH) rhodd o £50.00 (s137) a chymeradwywyd hyn yn unfrydol.** | **Donation Request** - a request for a donation had been received from Papur Menai. **Proposed & Seconded (AO/DH) to donate the sum of £50.00 (s137) and this was approved unanimously.** |
| | | |
| **20** | **Ceisiadau Cynllunio Newydd** | **New Planning Applications:** |
| | Cais Llawn codi porth car Newydd yn: **The Peach House, Llangoed HHP/2026/14 – Dim Sylwadau.** | *Full Application to erect a new carport at:* ***The Peach House, Llangoed HHP/2026/14 – No Observations.*** |
| | | |
| **21** | **Penderfyniadau Cynllunio** | **Planning Decisions** |
| | Cais Llawn dymchwel yr annedd bresennol a chodi annedd Newydd ynghyd a gosod sustem trin carthffosiaeth breifat Newydd a Gwaith cysylltiedig yn: **Tan Y Coed, Llangoed – FPL/2025/244 – CANIATÂD.** | Full application to demolish existing building and erect a new dwelling together with the installation of a new private treatment plant and associated works at: **Tan y Coed, Llangoed – FPL/2025/244 – APPROVED.** |
| **22** | **Gohebiaeth:** | **Correspondence:** |
| | Nodwyd a rhannwyd y canlynol gyda'r Cynghorwyr: | The following was noted and shared with Councillors: |
| 22.1 | **Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyngor Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 4ydd Chwefror 2026 ynghyd â sleidiau cyflwyniad.** Gyda chefnogaeth Cynghorwyr Sir Ward Seiriol, soniodd y Clerc fod Pwyllgor Gwaith Cyngor Tref a Chymuned wedi cytuno rhannu £750k rhwng yr holl Gynghorau Tref a Chymuned i ariannu prosiectau cymunedol fel rhan o'r £1.5m o gyllid menter Balchder yn ei Le Llywodraeth y DU a ddyrannwyd i Ynys Môn. | **Town & Community Council Forum Meeting Minutes held on Wednesday, 4th February 2026 together with presentation slides.** With the support of the Seiriol Ward's County Councillors, the Clerk mentioned that the CSYM Executive Committee has agreed to share £750k between all Town & Community Councils to fund community projects as part of the £1.5m of the UK Government's Pride in Place initiative funding allocated to Anglesey. It was emphasised that only capital |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwysleisiwyd mai dim ond gwariant cyfalaf a ganiateir o dan y grant a byddai'n rhaid gwario'r cyllid erbyn diwedd mis Mawrth 2027. Bydd y Clerc yn derbyn llythyr yn fuan i gadarnhau faint o arian sydd wedi'i ddyrannu i'r Cyngor gyda manylion pellach am amodau'r grant. **Cytunwyd yn unfrydol y bydd yr eitem hon yn cael ei rhoi ar agenda'r mis nesaf i'w thrafod ymhellach.** | expenditure is permitted under the grant and that the funding would have to be spent by the end of March 2027. The Clerk will soon receive a letter to confirm how much money has been allocated to the Council with further details about the conditions of the grant. **Agreed unanimously that this item will be placed on next month's agenda for further discussion.** |
| 22.2 | **Gŵyl Teithiau Cerdded CSYM –** cyfarfod ar 11eg Mawrth 2026 yng Nghanolfan Fusnes Ynys Môn yn Llangefni mewn ymgais i ail-lansio'r digwyddiad. | **IOACC Festival of Walks –** meeting on the 11th March 2026 at the Anglesey Business Centre in Llangefni in an attempt to relaunch the event. |
| 22.3 | **Rhaglen Waith Ymlaenorol Pwyllgor Gwaith CSYM rhwng misoedd Mawrth a Hydref 2026.** | **IOACC Executive Forward Work Programme for March to October 2026.** |
| | | |
| **23** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:**<br>**7fed Ebrill 2026.**<br>Gan nad oedd unrhyw fusness arall i'w drafod, diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a Cynghorwyr y Cyngor am eu presenoldeb ac fe cauodd y cyfarfod am 7.45yh. | **Date of Next Meeting:**<br>**7th APRIL 2026.**<br>With no further business to be conducted, the Chair thanked the Clerk and the Cllrs for their attendance and declared the meeting closed at 7.45pm. |

**Arwyddo/ Sign……………………………………………….Cadeirydd / Chair……………..Dyddiad / Date.**